

## Ysgol I D Hooson Polisi presenoldeb

### Cyflwyniad

Mae gan bob plentyn hawl i addysg llawn amser beth bynnag fo'i oedran, agwedd, gallu neu anghenion dysgu ychwanegol.

Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol os yw'r plentyn am wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol hyn. Mae Ysgol I D Hooson yn cymeryd ein cyfrifoldeb o ddifri wrth fonitro a hyrwyddo presenoldeb ei disgyblion. Rydym yn cydnabod fod presenoldeb gwael yn cael effaith difrifol ar barhad y dysgu, mae'n taseilio cynnydd, gall arwain at dangyrhaeddiad a chyflawniad isel, gan effeithio gallu'r plentyn i wneud ffrindiau yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn dechrau am 8.55 a.m. ac yn gorffen am 3.15 p.m. Mae'r dosbarth meithrin bore yn dechrau am 8.55 a.m. ac yn gorffen am 11.30 a.m. Mae'r dosbarth meithrin pŵn yn dechrau am 12.45 p.m. ac yn gorffen am 3.15 p.m.'

Yn ogystal a hyn, cynigir Clwb Brechwast am ddim i'r disgyblion meithrin hyd Blwyddyn 6 am 8 o'r gloch bob bore. Os yw disgybl yn cyrraedd yr ysgol rhwng 8.00 ac 8.30 a.m. disgwylir iddo ef neu hi fynd i'r Clwb Brechwast. Mae aelodau o staff yr ysgol yr ysgol ar ddyletswydd o 8.45 a.m. hyd 8.55 a.m. pan genir y gloch.

### Fel ysgol anelwn i:

- sicrhau canran presenoldeb uwchlaw 95%
- gynnal lefelau uchel o bresenoldeb trwy hyrwyddo awyrgylch positif a chroesawgar lle gall y plant deimlo'n ddiogel, a lle maent yn cael eu gwerthfawrogi
- godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb da
- sicrhau fod presenoldeb yn cael ei fonitro'n effeithiol gyda rhesymau am absenoldeb yn cael eu recordio'n drefnus a chyson

### Mae presenoldeb da yn bwysig oherwydd fod:

- ystadegau'n dangos cysylltiad uniongyrchol rhwng tangyflawniad a phresenoldeb gwael
- plant sy'n bresennol yn rheolaidd yn gwneud cynnydd gwell, yn gymdeithasol ac yn academaidd
- plant sy'n bresennol yn rheolaidd yn delio'n well gyda gweithdrefnau a gwaith ysgol
- plant sy'n bresennol yn rheolaidd yn cael mwy o foddhad trwy ddysgu
- Plant sy'n bresennol yn rheolaidd yn cael y broses o drosglwyddo i ysgol uwchradd yn haws

### Yr hyn a ddisgwylwn gan y disgyblion:

- I barchu eu hunain a pharchu eraill
- I wneud popeth posibl i fod yn bresennol yn yr ysgol yn ddyddiol ac ar amser
- I ddweud wrth oedolyn cyfrifol os y teimlant eu bod nhw'n cael eu bwllian
- I annog cyfeillgarwch ac ymwybyddiaeth o berthyn
- I fod yn hapus ac i annog eraill i deimlo'n hapus

### Fel rhieni/gwarchodwyr disgwylwn i chi:

- roi caniad i'r ysgol ar fore cyntaf yr absenoldeb gyda rhesymau am yr absenoldeb a pha bryd disgwylir i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol
- trefnu apwyntiadau deintyddol / meddygol tu allan i oriau ysgol, neu yn ystod amser chwarae/cinio. Os nad yw hyn yn bosibl, dylech gysylltu o flaen llaw neu ar y dydd, neu bydd eich plentyn yn cael ei farcio'n absennol
- cysylltu ar y ffôn, trwy e bost neu lythyr pan fydd plentyn yn absennol am gyfnod estynedig oherwydd salwch
- sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, wedi ei wisgo'n addas, gyda'r offer addas ar gyfer y dydd, ac yn barod i ddysgu. Dylir cynnig rheswm am fod yn hwyr. Os fydd eich plentyn yn cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd a heb eglurhad rhesymol, byddwn yn cofnodi hyn fel absenolde
- i weithio'n agos gyda'r ysgol a'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol, ( GCA) er mwyn trafod unrhyw beth allai effeithio presenoldeb

Gyda'r rhieni mae cyfrifoldeb sicrhau fod plant yn bresennol yn yr ysgol yn rheolaidd a phrydlon Mae ganddynt dyletswydd cyfreithiol i sicrhau fod eu plant yn bresennol yn yr ysgol.

#### Fel ysgol byddwn yn:

- ymchwilio i absenoldebau sydd heb eu hegluro trwy alwadau ffon a llythyrau cyn gynted ag y bo modd.
- atgoffa rhieni o bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd o fewn y Cytundeb Ysgol Cartref a thrwy lythyrau rheolaidd
- Cyhoeddi ein ystadegau presenoldeb yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i rieni
- Cydnabod a gwobrwyo presenoldeb da
- Cysylltu a rhieni os oes pryder am bresenoldeb plentyn
- Os fydd pryderon yn parhau, cyfeiro'r mater at y GCA

#### Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb i:

- ddarparu a hyrwyddo presenoldeb rheolaidd ar gyfer pob plentyn o oedran statudol
- i gefnogi rhieni a phlant i gyflawni eu cyfrifoldeb cyfreithiol trwy'r Gwasanaeth Gweithwyr Cymdeithasol Addysg.

Y Gwasanaeth Gweithwyr Cymdeithasol Addysg yw adran gorfodaeth yr Awdurdod Lleol. Yn ogystal a chynnig arweiniad a chefnogaeth gall ei swyddogion fynd a rhieni i'r Llys am beidio a chwblhau eu dyletswyddau cyfreithiol yn ol deddf Addysg 1996. Gall y Llysoedd ddirywio rhieni neu sefydlu Gorchymyn presenoldeb ysgol, Gorchymyn goruchwyliaeth addysgol neu Orchymyn rhianta.

#### Absenoldeb Awdurdodedig.

Mae rhai absenoldebau yn cael eu caniatáu o dan y gyfraith. Absenoldebau Awdurdodedig yw'r rhain. e.e.

- Plentyn yn sal neu methu cyrraedd yr ysgol am reswm na ellir ei osgoi
- Plentyn yn absennol oherwydd gwyl grefyddol arbennig
- Plentyn yn absennol 'gyda chaniatad'. Bydd caniatad wedi ei roi gan y Pennaeth, nid gan y rhaint, fel arfer am ddim mwy na deg diwrnod mewn blwyddyn academiaidd

Sylweddolwn fod achlysuron prin pan fydd amgylchiadau yn golygu fod plentyn yn absennol. Gadewch i ni wybod a byddwn yn ceisio delio a phob sefyllfa yn sensitif.

#### Absenoldebau Diawdurdodedig.

Mae achlysuron pan fydd plentyn yn absennol o'r ysgol am resymau na chaniateir yn ol y gyfraith. Absenoldebau diawdurdodedig yw'r rhain. Enghreifftiau o'r math yma o absenoldeb

- Mynd i siopa
- Diwrnod allan gyda'r teulu
- Penblwydd plentyn
- Cysgu'n hwyr ar ôl noson hwyr
- Gwyliau heb ganiatad
- Pan nad oes eglurhad am yr absenoldeb neu pan fydd y rheswm gynigir yn annerbyniol
- Mae'n rhaid adrodd ar absenoldebau i'r Awdurdod Lleol. Gall y Gwasanaeth presenoldeb ysgolion gysylltu a chi ac ystyried cymeryd camau cyfreithiol os fydd gan eich plant absenoldebau diawdurdodedig.

***Mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i gyflwyno Rhybuddion Cosb Penodedig £60. Gellir cyflwyno'r Rhybuddion Cosb Penodedig hyn ar gyfer absenoldebau rheolaidd o'r ysgol sydd heb eu hawdurdodi ac sydd yn cael effaith negyddol ar bresenoldeb plentyn.***

#### Prydlondeb

- Mae'r gloch yn canu am 8.55 yn y bore gyda chofrestru yn dilyn. Dylai'r plentyn fod yn yr ysgol erbyn yr amser hwn. Bydd yr athrawon yn cau y cofrestr am 9.30.
- Mae prydlondeb yn bwysig iawn gan fod munudau cynta'r dydd yn bwysig iawn wrth roi cyfarwyddiadau neu drefnu gweithgareddau ar gyfer y dydd.
- Os fydd eich plentyn yn absennol ar gyfer y cyfnod byr ond pwysig hwn, gall hyn effeithio ar eu gwaith am weddill y dydd. Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr yn effeithio ar rediad y wers ac yn gallu creu embaras i'r plentyn. Ystyriwn nad oes plant hwyr, dim ond rhieni hwyr!
- Byddwn yn cysylltu a chi os oes gennym unrhyw bryderon am brydlondeb eich plentyn.

### Gwyliau yn ystod y tymor.

Ni ddylai rhieni fel arfer drefnu gwyliau yn ystod y tymor, er fod ysgolion yn gallu bod yn hyblyg i raddau wrth roi caniatad i geisiadau am absenoldeb. Dylid ystyried pob cais yn unigol gan ystyried oedran, patrymau presenoldeb yr unigolyn a datblygiad a chynnydd y plentyn. Os na roddir caniatad, a'r rhieni yn parhau i fynd a'r plentyn ar wyliau, bydd yn absenoldeb diawdurdodedig. Ni ddylai unrhyw absenoldeb fod am fwy na pump diwrnod mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Pan fydd absenoldeb yn hwy na pump diwrnod, bydd y dyddiau ychwanegol yn ddiawdurdodedig.

### Ein polisi yw y dylai rhieni:

- Ymgeisio am absenoldeb gwyliau trwy lythyr i'r pennaeth mewn da bryd a chyn trefnu'r gwyliau
- Bydd y Pennaeth yn ystyried y cais ac yn hysbysu'r rhieni o'r penderfyniad
- Geisio lleihau effaith gwyliau trwy drefnu naill ben i wyliau ysgol
- Osgoi gwyliau ym Medi, gan fod hyn yn cael effaith andwyol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol
- Ei bod hi'n annodd i blant ddal fyny gyda'u gwaith pan fyddant wedi bod yn absennol am gyfnod estynedig. Mae amser dysgu gwerthfawr yn cael ei golli.

### Trefniadau'r ysgol i gofnodi a monitro absenoldeb.

Mae'r athrawon dosbarth yn galw'r gofrestr yn dilyn y gloch am 8.55. Cedwir rhesymau am absenoldeb, gydag eglurhad llafar yn cael ei recordio gan staff. Dylai fod eglurhad yn cael ei gynnig am bob absenoldeb.

### Monitro.

Bydd y ysgol yn adolygu presenoldeb pob disgybl yn dymhorol. Bydd yn cysylltu a rhieni disgyblion gyda phresenoldeb sy'n is na 95% gan gynnig cefnogaeth a thrafod unrhyw fater sy'n rhwystro plentyn rhag bod yn bresennol. Os oes pryder am absenoldeb, gofynir i'r athrawon dosbarth gysylltu a Miss Manon Davies(Cyfnod Sylfaen) a Mr Sion Owen(Cyfnod Allweddol 2) Bydd y ddau yn cysylltu gyda rhieni am sgwrs anffurfiol os oes angen, er mwyn hyrwyddo presenoldeb. Byddant yn cyfeirio materion sy'n achosi pryder at y Pennaeth.

Bydd presenoldeb y plentyn yn cael ei fonitro yn agos ac os nad oes gwelliant yn ystod yr hanner tymor nesaf, gwahoddir rhieni'r plentyn i gyfarfod y Pennaeth gan geisio datrys unrhyw broblemau. Os na fydd y rhiant yn bresennol yn y cyfarfod ac os na fydd aglurhad derbyniol, cyfeirir y mater at y Gweithiwr Cymdeithasol Addysgol.

### Annog presenoldeb da trwy arfer dda a gwobrwyon.

Anogir presenoldeb yn y dulliau canlynol:

- Tystysgrifau am bresenoldeb o 95% a 100% mewn tymor
- Gwobr arbennig am bresenoldeb o 100% tros flwyddyn
- Gwobrwyon i'w cyflwyno mewn Gwasanaethau ysgol gyfan
- Adnabod materion sy'n ymwneud a phresenoldeb a'u rhannu gyda'r ysgol uwchradd rhwng CA 2 a 3.
- Arddangos presenoldeb dosbarthiadau ar ddrysau dosbarthiadau.

### **Trefn Monitro Presenoldeb**

*Pan fydd presenoldeb plentyn yn dirywio ac yn disgyn o dan 95%:*

1. Bydd swyddogion monitro presenoldeb yr ysgol yn hysbysu'r rhiant drwy lythyr 1.
2. Os na fydd gwelliant yn lefel presenoldeb y plentyn, anfonir llythyr 2.
3. Os na fydd gwelliant yn lefel presenoldeb y plentyn, anfonir llythyr 3 i'r rhiant. fydd yn gwahodd i'r rhiant i'r ysgol i gyfarfod gyda'r Pennaeth i drafod y mater
4. Os fydd lefelau presenoldeb yn parhau i ddisgyn heb reswm teilwng, yna bydd rhieni yn derbyn llythyr 4 sydd yn rhybuddio rhieni ynglyn a chosb benodedig ac yn cynnal trafodaethau pellach gyda Swyddog Llês yr Awdurdod Lleol.

Arwyddwyd \_\_\_\_\_ Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol

Arwyddwyd \_\_\_\_\_ Pennaeth

Dyddiad \_\_\_\_\_ Dyddiad adolygu \_\_\_\_\_.